

# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL  
PANEL HEDDLU A THROSEDD



## Cyfarfod Arbennig Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 21 Ionawr 2013 at 10.00 am  
Bodlondeb, Conwy

### RHAGLEN

- Ymddiheuriadau am absenoldeb**
- Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**  
Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth a natur** eu cysylltiadau personol.
- Materion Brys**  
Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Ystyried adroddiad oddi wrth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y mater canlynol:**
  - Adroddiad Pennu Cyllideb a Phraeseptau 2013-14 (Tudalennau 1 - 41)
- Cadarnhau Gwrandawriad ar gyfer penodi Prif Weithredwr y Comisiynydd Heddlu a Throsedd**  
*(Yn amodol ar gadarnhad swyddogol oddi wrth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd)*
- Ystyried aildrefnu dyddiad y cyfarfod ym mis Mai 2013**

Aelodau'r Panel

Cyng William Knightly (Cadeirydd  
Cyng Glenys Diskin (Is-Gadeirydd)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir y Fflint

Cyng Amanda Bragg  
Cyng Bill Cowie  
Cyng Terry Evans  
Cyng Chris Hughes  
Cyng William T. Hughes  
Cyng Charles Jones  
Cyng Colin Powell  
Cyng Gethin Williams

Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Sir Ddinbychl  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir Ynys Mon  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Gwynedd

Patricia Astbury  
Timothy Rhodes

Aelod Annibynnol Cyfetholedig  
Aelod Annibynnol Cyfetholedig

Un o'r penderfyniadau allweddol y byddaf yn gwneud bob blwyddyn fydd cyflwyno lefel bwriedig praesept yr heddlu i Banel yr Heddlu a Throsedd. Bydd y penderfyniad hwn yn allweddol i bennu lefel yr adnoddau y gellir eu darparu i'r Prif Gwnstabl i ddarparu'r gwasanaeth plismona yng Ngogledd Cymru ac er mwyn cyfalwni fy ngweledigaeth fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Rwyf eisiau sicrhau diogelwch yn y cartref a diogelwch mewn mannau cyhoeddus, ac er mwyn cyflawni hyn rwy'n cynnig i'r Panel fod praesept yr Heddlu ar gyfer 2013/14 yn cael ei gynyddu o 3.47% sy'n gyfystyr a chynnydd o 3.98% ar Dreth y Cyngor, 17 ceiniog yn ychwanegol yr wythnos fesul aelwyd (band D).

Byddai hyn yn galluogi ariannu 51 o swyddogion yr Heddlu ychwanegol. Byddai cynnydd o 51 Swyddog yn cynyddu'r Sefydliad Swyddogion o 1417 i 1468. Bydd hyn yn caniatáu i recriwtio buan barhau i gael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn a fyddai'n caniatáu'r niferoedd gwirioneddol i fod 50 i 70 yn uwch na'r sefydliad ym mis Mawrth 2014. Byddai'r swyddogion atodol yn galluogi rhagor o opsiynau i ganolbwyntio ar ostwng trosedd drwy fesurau ataliol a lleihau niwed i gymunedau.

Bydd y Cynllun Heddlu a Throsedd yn amlinellu mewn rhagor o fanylder yr hyd rwy'n bwriadu ei gyflawni a sut rwy'n bwriadu ei gyflawni yn ystod fy nhymor yn y swydd. Ar hyn o bryd rydym yn dal i ystyried barn y Gymuned drwy'r Alwad am Dystiolaeth, cyn cyflwyno'r Cynllun drafft i'r Panel fis nesaf. Mae'n bwysig rwan bod gennym gytundeb clir am lefel yr adnoddau y gellir eu darparu i blismona Gogledd Cymru, i gwblhau a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth plismona effeithiol i'r ardal.

## Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

<b>Teitl:</b>	<b>Cyllideb a Praesept 2013-14 tan 2016-17</b>
<b>Cyfarfod:</b>	<b>Cyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 21 Ionawr 2013</b>
<b>Awdur:</b>	<b>Mike Parkin, Prif Swyddog Cyllid Dros Dro / Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</b>

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r sefyllfa ariannol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer treth y cyngor a praesept 2013-14.

### Argymhellion

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell:

1. Fod praesept 2013-14 yn seiliedig ar gynyddu Treth y Cyngor band D o 3.98% (cynnydd o £8.55 y flwyddyn, 17 ceiniog yr wythnos) i £223.11, sy'n rhoi cyfanswm o 3.47% o gynnydd yn y praesept ac
2. Mai'r Gofyniad Cyllideb yw £141.705m, cyfanswm o 0.57% o gynnydd
3. Bod gwerth £4.634m o arbedion wedi'u clustnodi ar gyfer 2013-14
4. Bydd £1.777m o'r arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi mewn 51 o Swyddogion Heddlu rheng flaen atodol
5. Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu cynnydd posibl o 4% bob blwyddyn tan 2015-16 yn seiliedig ar amcangyfrif y bydd gostyngiad o 3% yn y grant

### Eitemau Statudol

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid (PSC) wneud sylw ar addasrwydd y wybodaeth i'w defnyddio fel sail ar gyfer penderfyniadau cyllidebol. Mae'r PSC wedi nodi fod y ffigurau yn y gwahanol adroddiadau yn gynnyrch trefnau sydd wedi parhau i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Caiff y systemau hyn eu harchwilio'n fewnol ac yn allanol ac nid yw archwiliadau allanol wedi cyflwyno unrhyw amodau. Mae'r wybodaeth felly'n addas i'w phwrpas.

Mae'r un ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r PSC wneud sylw ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a fydd yn cael eu darparu yn y gyllideb. Mae'r PSC wedi nodi y bydd y gronfa wrth gefn gyffredinol yn parhau i fod yn ddigonol ar gyfer anghenion gweithredol y Llu o ddydd i ddydd.

### Yr amgylchedd cynllunio

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) amgaeedig yn amlinellu'r amgylchedd cynllunio yn ogystal â ffigurau, cynlluniau cyfalaf a chronfeydd wrth gefn y flwyddyn cynt.

Nid oedd unrhyw Ddyraniadau Ariannu Dros Dro'r Llywodraeth ar gyfer 2013-14 wedi'u rhoi fel rhan o setliad 2012-13, roedd % toriadau dangosol o -2% ar gyfer 2013-14 a -1% ar gyfer 2014-15 wedi'u rhoi fel rhan o ffigurau setliad 2011-12. Ni arweiniodd setliad terfynol 2012-13 gan y Swyddfa Gartref at unrhyw newid i'r ffigurau a gyhoeddwyd fel rhan o Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2010 (CSR2010) ym mis Hydref 2010. Cadarnhaodd hwn doriad o £5.571m neu -

6.7% yn y grant ar gyfer 2012-13, hyn yn dilyn toriad o £4.503m neu -5.14% yn 2011-12. Ar y sail hon, rhagdybiwyd toriad o -2% yng Ngrantiau'r Llywodraeth yn wreiddiol ar gyfer 2013-14.

Cyhoeddodd o Canghellor yn Natganiad yr Hydref 2011 y byddai cap o 1% ar gynydd tâl yn y sector cyhoeddus o 2013-14. Fel rhan o setliad 2012-13 nododd y Swyddfa Gartref y byddent yn ystyried budd y rhewi cyflogau fel arbediad yn ganolog. Disgwyliwyd mai canlyniad hyn fyddai gostyngiad o gyfanswm o -3.78% yn y grant.

Fel rhan o Ddatganiad yr Hydref 2012 ar 5 Rhagfyr 2012, cyhoeddodd y Canghellor y byddai Adrannau'r Llywodraeth yn derbyn gostyngiad atodol o -1% yn 2013-14 a -2% yn 2014-15.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiad ar yr addasiad i'r Fformiwla Dyrannu Grantiau i sicrhau fod pob Llu yn derbyn toriad o'r un % yn eu prif grant (sy'n cael ei adnabod fel y Grant Llwr) cyn cyhoeddiad Grant 2012.

Y Grant Plismona Cymdogaeth sy'n darparu arian ar gyfer 75% o'r 157 PCSO sydd gan Heddlu Gogledd Cymru. Bydd y Grant Plismona Cymdogaeth yn cael ei gyfuno â'r prif grant o 2013-14 ymlaen. Addaswyd y grant Cyffredinol gan ystyried gwerth y grant hwn (£3.338m).

Cyhoeddwyd y Grant dros dro gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2012. Dyma oedd y prif benderfyniadau

- Peidio trosglwyddo'r toriad ychwanegol o 1% o Ddatganiad yr Hydref 2012
- Peidio cymryd yr arbediad o'r cap o 1% ar gynyddu cyflogau yn ganolog
- Gweithredu camau lleddfu fel bod pob Llu'n wynebu'r un gostyngiad -1.6% yn eu grant

Rhoddir y paragraff perthnasol o ddatganiad y Gweinidog Plismona a Chyfiawnder Troseddol isod.

*'Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd y Canghellor ostyngiadau pellach i gyllidebau Adrannol ar gyfer 2013/14 a 2014/15 wrth gyhoeddi Datganiad yr Hydref. Fodd bynnag, rwyf wedi diogelu'r heddlu rhag y gostyngiadau hyn yn 2013/14. Yn ogystal, yn 2013/14, rwyf hefyd wedi diogelu'r heddlu rhag y gostyngiadau a gyhoeddwyd gan y Canghellor ym mis Tachwedd 2011 yn ymwneud â rheolaeth tâl yn y sector cyhoeddus. Heb y diogeliad hwn ar reolaeth cyflogau, byddai arian Llywodraeth ganol i'r heddlu wedi profi gostyngiad o £66m yn 2013/14. O ganlyniad i'r ddau benderfyniad yma, bydd yr heddlu'n derbyn yr un swm o gyfanswm ariannu'r Llywodraeth yn 2013/14 ag y cytunwyd yn Adolygiad Gwariant mis Hydref 2010.*

*Rwyf wedi penderfynu cymryd camau lleddfu fel bod pob ardal heddlu yn 2013/14 yn wynebu gostyngiad o'r un canran yn eu harian craidd gan Lywodraeth ganol (1.6 y cant o'u harian).'*

### **Capio**

Ni wneir cyhoeddiad ffurfiol o'r ddau faen prawf gofynnol ar gyfer capio nes bod pob treth y Cyngor wedi'u gosod. Deallir nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried cymryd camau gweithredu yn erbyn awdurdodau sy'n cynyddu treth y Cyngor o hyd at 5% ond bod y risg o gapio yn cynyddu uwchlaw'r ffigwr hwn.

### **Y Sail treth**

Y sail treth ar gyfer 2013-14 yw 278,446.12 cyfwerth â band D o'i gymharu â 279,827.39 yn 2012-13, gostyngiad o 1,381.27 neu -0.49%. Mae hyn wedi golygu gostyngiad yn y swm a dderbynnir drwy'r praesept o £0.308m.

### **Cyllideb 2013-14**

Wrth i'r Llu osod eu cyllideb ym mis Tachwedd 2013 disgwyliwyd y byddai angen toriadau o £4.6m i gydbwysu cyllidebau 2013-14. Cafodd y rhain eu nodi. Fodd bynnag, gan fod y Swyddfa Gartref wedi llwyddo i ddarparu gwell setliad ariannol na'r disgwyl, cyfanswm y toriadau sydd eu hangen yw £2.858m.

Yn dilyn trafodaethau manwl gyda'r Comisiynydd a'r ffocws mae wedi'i amlinellu ar gyfer cyfeiriad adnoddau ariannol y gwasanaeth heddlu yn y dyfodol, os bydd Panel yr Heddlu a Throsedd yn cymeradwyo lefel fwriedig y praesept cytunwyd y bydd yr arbedion atodol o £1.777m a ddynodwyd yn cael eu defnyddio i **ariannu 51 o swyddi Swyddogion heddlu rheng flaen parhaol**.

Gan fod y Llu eisoes wedi bod yn recriwtio rhagor o swyddogion na'r sefydliad a gynlluniwyd yn ystod 2012-13 bydd modd i'r Swyddogion atodol fod ar ddyletswydd ddechrau 2013-14. Bydd modd wedyn parhau â'r strategaeth o recriwtio swyddogion Ar Brawf yn fuan yn 2013-14 gan ddefnyddio arian o'r gronfa wrth gefn.

Mae manylion y Gyllideb wedi'u cynnwys yn y CATC ac mae crynodeb ohonynt isod,

	£m
Gofyniad Cyllideb 2012-13	<u>140.908</u>
Chwyddiant Cyflogau	0.861
Chwyddiant ac eithrio cyflogau	1.305
Gofynion newydd ac arian grant	0.380
Defnydd o'r gronfa wrth gefn yn y Gyllideb	1.108
<b>Gofyniad Cyllideb Diwygiedig</b>	<b><u>144.562</u></b>
<b><u>Nawdd</u></b>	
Grantiau @ toriad o -1.6%	79.581
Praesept @ cynnydd treth y cyngor o 3.98%	62.124
<b>Cyfanswm y Nawdd</b>	<b><u>141.705</u></b>
<b>Toriadau gofynnol i gydbwysu'r gyllideb</b>	<b>2.857</b>
<b><u>Toriadau a ddynodwyd</u></b>	
Adolygiadau 2012-13	0.578
Adolygu blynyddoedd blaenorol	1.456
Rhoi tasgau yn nwylo sifiliaid	0.565
Rhewi Cynyddiadau Cyflog	0.411
Lwfansau	0.391
Hyfforddiant	0.125

Cyllideb Ynni	0.090
Arfwisg Corff	0.100
Contractau	0.252
Cymorth o'r Awyr	0.285
Arian a neilltuwyd ar gyfer sefyllfaoedd arbennig	0.093
Arian Cyffredinol a Neilltuwyd	0.250
Llog ar Falansau	0.038
<b>Cyfanswm</b>	<b><u>4.634</u></b>

**Ail-fuddsoddi mewn 51 Swyddog Heddlu rheng flaen     1.777**

### Risg

Ystyrir y canlynol yn risg sylweddol rhag cyflawni'r cynlluniau a chyflawni'r gyllideb fel yr amlinellir.

Chwyddiant - yn ei Ddatganiad yr Hydref yn 2011 cyhoeddodd y Canghellor y byddai cynnydd mewn cyflogau wedi'u cyfyngu i ffigwr cyfartalog o 1% ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Nid yw'r cynnydd yma wedi'i gwblhau ar gyfer yr Heddlu na Staff yr Heddlu. Byddai hefyd rhaid i unrhyw gynnydd mewn Pensiwn Cyflogwyr neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol hefyd yn cael effaith sylweddol ar gostau cyflogau. Gosodir darpariaeth chwyddiant ar bob pryniant arall ar darged y Llywodraeth o 2%, tra gosodwyd meysydd lle gwyddom fod chwyddiant yn uwch ar 5%.

Grantiau penodol – bu gostyngiad yn nifer y grantiau penodol ond mae'r llw yn parhau i dderbyn symiau sylweddol sy'n agored i newid ar fyr rybudd.

Fformiwla Grantiau a'r Llawr Grantiau – cynhelir y Grant Llawr o £10.5m ar gyfer 2013-14 gan fod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu gweithredu camau lliniaru fel bod pob Llu yn derbyn yr un gostyngiad o 1.6% yn eu grantiau. Nododd y Swyddfa Gartref y byddent hefyd yn defnyddio agwedd gyson yn 2014-15 ond ni nodwyd lefel y toriadau. Cyhoeddwyd hefyd y bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn comisiynu arolwg sylfaenol o'r Fformiwla unwaith y bydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh) wedi sefydlu eu hunain yn eu swyddi. Mae risg fawr y byddai fformiwla newydd yn cael effaith niweidiol ar lefel ariannu Heddlu Gogledd Cymru.

Effaith gronrus a sensitifrwydd – mae'r tabl isod yn amlinellu sensitifrwydd y prif newidion ariannu a chostau. Gall cyfuniad o nifer o'r rhain achosi newid sylweddol o safbwynt ariannu.

<b>Prif newidion sensitifrwydd</b>	<b>£m</b>
1% yn llai o gynnydd mewn Treth y Cyngor	0.595
Gostyngiad o 1% yn y grant	0.796
Gostyngiad o 1% yn y sail treth	0.625
Cynnydd tâl o 1% neu bensynau'r cyflogwr neu'r cyfraniad yswiriant gwladol	0.860

Cynnydd o 1% mewn chwyddiant	0.300
------------------------------	-------

## Ystwythder

Rhan sylweddol o blismona yw darparu ymateb brys rheng flaen, felly gall y Llu wynebu un neu ragor o ddigwyddiadau gyda goblygiadau ariannol sylweddol ar yr un pryd (fel y profwyd yn ystod 2012-13). I fynd i'r afael â'r sefyllfa hon, caiff balansau eu cadw i leihau'r effaith ar weddill y busnes craidd.

Balansau yw'r prif fesur o ran ystwythder, ond nid ystwythder yw eu hunig swyddogaeth gan fod hefyd eu hangen i ariannu anghenion llif arian dyddiol y sefydliad. Mae'r balansau a amcangyfrifir ar 31 Mawrth 2012 yn perthyn i ddau gategori:

Defnyddir y gronfa wrth gefn Gyffredinol (£7.189m) i ariannu anghenion llif arian o ddydd i ddydd ac ati a darparu ystwythder i'r rheng flaen. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn rhagweld y bydd y gronfa wrth gefn hon yn cael ei chynnal ar yr un ffigur ariannol dros y misoedd i ddod.

Cronfeydd wrth gefn a glustnodir a Chronfeydd Cyfalaf wrth gefn – bydd angen adolygu'r rhain bob blwyddyn yn sgil CATC wedi'i ddiweddarau, dangosir manylion y cynllun a'r amcanestyniadau presennol yn Adran 10. y CATC a grynhoir isod.

Elfen fwyaf y Gronfa Wrth gefn a Glustnodwyd yw'r Gronfa Gyfalaf wrth gefn (£18.113m). Mae'r Gronfa Wrth Gefn hon yn caniatáu buddsoddiadau i gael eu gwneud mewn Stadau yn bennaf, ond hefyd yn cynnwys TG ac offer, sy'n

- Sail i arbedion refeniw i'r dyfodol
- Darparu isadeiledd sy'n addas i'w bwrpas
- Osgoi costau cynnal a chadw atodol ar adeiladau aneffeithiol yn y dyfodol fel Gorsaf Heddlu bresennol Wrecsam.

Rhoddir manylion llawn y Cronfeydd Wrth Gefn a amcangyfrifir ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol isod:

## SEFYLLFA'R GRONFA WRTH GEFN

<i>Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ar</i>	<b>31.3.12</b>	<b>31.3.13</b>	<b>31.3.14</b>	<b>31.3.15</b>	<b>31.3.16</b>	
	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	
<b>Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf</b>	2.228	0.500	0.000	0.000	0.000	Gellir ond ei ddefnyddio ar gyfer cyfalaf, mae gwerthiannau atodol a gynllunnir wedi'u cynnwys mewn arian cyfalaf
<b>Grantiau Cyfalaf Anghymwysiedig</b>	1.582	0.000	0.000	0.000	0.000	Gellir ond ei ddefnyddio ar gyfer cyfalaf
<b>Balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol</b>	7.189	7.189	7.189	7.189	7.189	Ar y 5% gofynnol o'r gyllideb net
<b>Cronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol a Glustnodwyd</b>	29.043	27.139	16.978	11.779	9.240	Manylir isod
<b>Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy</b>	<b>40.042</b>	<b>34.828</b>	<b>24.167</b>	<b>18.968</b>	<b>16.429</b>	

<b>Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</b>	<b>31.3.12</b>	<b>31.3.13</b>	<b>31.3.14</b>	<b>31.3.15</b>	<b>31.3.16</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>
<b>Buddsoddiad Cyfalaf</b>	18.113	12.519	3.185	0.135	0
<b>Digwyddiadau Mawr</b>	2.04	2.04	2.04	2.04	2.04
<b>Cronfa Wrth Gefn PFI</b>	2.097	2.567	2.978	3.329	3.625
<b>Cronfa Wrth Gefn Pensiwn Iechyd Gwael</b>	0.881	0.881	0.881	0.881	0.881
<b>Cronfa Wrth Gefn Yswiriant</b>	1.259	1.259	1.259	1.259	1.259
<b>Cronfa Wrth Gefn Cyfnodau Prawf</b>	1.346	4.866	4.366	2.366	0.366
<b>Costau Refeniw a Phrosiect</b>	1.949	1.949	1.7	1.2	0.5
<b>Cynnal a Chadw'r Hofrennydd</b>	0.317	0.317	0.317	0.317	0.317
<b>Cronfa Wrth Gefn Partneriaethau</b>	0.789	0.489	0	0	0
<b>Swyddfa'r CHTH a Throsglwyddiad CHTH</b>	0.252	0.252	0.252	0.252	0.252
<b>Cyfanswm</b>	<b>29.043</b>	<b>27.139</b>	<b>16.978</b>	<b>11.779</b>	<b>9.24</b>

### Trafodaeth am yr opsiynau gyda chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sy'n gyfrifol am bennu'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaeth plismona ar gyfer Gogledd Cymru, a chydran allweddol o'r gyllideb yw'r gyfran sy'n cael ei chodi drwy osod lefel y praesept plismona.

Gofynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gael ei friffio'n llawn ar amgylchiadau ariannol presennol a blaenorol yr heddlu, a derbyn opsiynau manwl ar gyfer 2013-14 a dros y cyfnod cynllunio tymor canolig.

Roedd yr opsiynau a gyflenwyd i'r Comisiynydd eu hystyried yn amrywio o osod Treth y Cyngor o 1% (a fyddai wedi cynnig cyllideb sy'n 'aros yn yr unfan') i gynyddu praesept yr Heddlu i gyfradd uwch er mwyn caniatáu ail-fuddsoddi mewn swyddogion heddlu.

Dros 3 blynedd gyntaf yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr (2011-12 tan 2013-14) mae gwerth £15.329m o doriadau wedi'u dynodi yn y gyllideb. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu mai'r



ffordd orau i'r gwasanaeth symud yn ei flaen yw ail-fuddsoddi £1.776m o'r toriadau hyn mewn Swyddogion rheng flaen.

### Praesept Fwriedig y Comisiynydd

Mae'r Comisiynydd wedi dewis yr opsiwn o gyflwyno cynnydd o 3.47% yn mhraesept yr Heddlu Banel yr Heddlu a Throsedd, sy'n gynnydd o 3.47% mewn Treth y Cyngor, gan ddefnyddio'r arbedion a ddynodwyd i ail-fuddsoddi mewn plismona rheng flaen.

Yn seiliedig ar y cynnydd bwriedig o 3.98%, Treth y Cyngor ar y gwahanol Fandiau Prasio Eiddo fyddai:

Bandiau Prasio Eiddo	
A	148.74
B	173.53
C	198.32
D	223.11
E	272.69
F	322.27
G	371.85
H	446.22
I	520.59

### 1.2 Y Praesept ar gyfer pob ardal filio fydd

Bilio CHTGC	Cyfran o'r Sail Treth y Cyngor	Swm y Praesept (£)
Cyngor Sir Ynys Môn	29,662.00	6,617,889
Cyngor Gwynedd	48,888.55	10,907,524
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	49,393.46	11,020,175
Cyngor Sir Ddinbych	38,000.11	8,478,205
Cyngor Sir y Fflint	60,254.00	13,443,270
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	52,248.00	11,657,051
	278,446.12	62,124,114

### Rhagolwg y Gyllideb 2014 i 2016-17

Mae'r rhagdybiaethau diwygiedig wedi cael rhywfaint o effaith ar amcanestyniadau i'r dyfodol. O safbwynt ariannu gwnaed rhagdybiaeth y bydd gostyngiad o 3% yn y grant a ragdybiwyd wrth gynllunio y byddai cynnydd o 4% mewn Treth y Cyngor. Mae'r ddau wedi'u cysylltu'n gynhenid a bydd newid yn yr arian grant yn arwain at adolygu'r lefel Treth y Cyngor bwriedig. Mae manylion wedi'u cynnwys yn y CATC ac wedi'u crynhoi isod.

	<b>2014-15</b>	<b>2015-16</b>	<b>2016-17</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Cynnydd Mewn Chwyddiant	2.420 (1.71%)	2.396 (1.66%)	2.361 (1.61%)
Gostyngiad yn y Grant	2.388 (-3.0%)	2.316 (-3.0%)	2.246 (-3.0%)
Arian atodol o'r cynnydd o 4% mewn Treth y Cyngor	-2.485	-2.585	-2.688
<b>Diffyg Diwygiedig</b>	<b>2.323</b>	<b>2.127</b>	<b>1.919</b>

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd  
Cymru a Heddlu Gogledd Cymru**

**Cynllun Ariannol Tymor Canolig**

**2013-14 i 2016-17**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cysylltu Cynllun Plismona 2013-2016 a'r Blaenoriaethau Plismona y cytunwyd arnynt gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Heddlu gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r Adnoddau sydd ar gael.

### 1.2 Nod

Nod y papur hwn yw manylu sut mae'r gyllideb wedi ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer mantoli yn y dyfodol gan sicrhau bod perfformiad yn cael ei gynnal a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni.

1.2 Gosodwyd y cyllidebau ar gyfer 2012-13 a'r cyllidebau a gynlluniwyd ar gyfer 2013-14 i 2015-16 yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Heddlu ar 17 Chwefror 2011 a 9 Mawrth 2011. Gosododd yr Awdurdod gynnydd o 2.5% yn Nhrefn y Cyngor ar gyfer 2012-13 gan gynllunio ar sail rhagdybiaeth o 4% i'r dyfodol. Ar sail y rhagdybiaethau a amlinellir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Chwefror a Mawrth 2012, nodwyd y toriadau angenrheidiol fel y dangosir yn y tabl isod. Bydd y Cynllun diwygiedig newydd hwn yn diweddarau'r ffigyrau hyn fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol ac yn rhoi'r wybodaeth y mae'r newidiadau hyn yn seiliedig arnynt.

Blwyddyn	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16
	£M	£M	£M	£M	£M
Toriadau angenrheidiol	4.678	6.897	2.767	2.490	1.785

## 2. Proses Gynllunio

2.1 Gwnaed nifer o adolygiadau yn ystod 2010-11 i baratoi at y gostyngiadau yn y gyllideb (Camau 1 a 2); llywodraethwyd y rhain gan Fwrdd Rhaglen 2011+ ac arweiniodd at ad-drefnu'r Model Cyflawni Gweithredol a'r Cymorth Swyddfa gefn a weithredwyd ar 4 Mai 2011. Adolygwyd y modelau cyflawni hyn yn ystod 2012-13 a gwnaed newidiadau o fewn y cyllidebau a neilltuwyd ym mhob maes. Gwnaed adolygiadau pellach yn ystod 2012-13, gan weithredu Plismona Lefel 2 Cam 3 a gweinyddu Cyfiawnder Troseddol Cam 4. Mae'r cyllidebau i'r dyfodol yn seiliedig ar y strwythurau y cytunwyd arnynt trwy'r prosesau hyn.

2.2 Wrth ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r canlynol

- Y Broses Gynllunio Strategol
- Strategaeth Heddluoedd Eraill
- Yr Hinsawdd Economaidd Bresennol
- Amcangyfrif o'r Adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

- Rhagolygon o'r Gyllideb am y cyfnod yn cynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, Cod Darbodus a'r effaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau.
- Creu Incwm, gweithgareddau Masnachu a Grantiau
- Cydweithio
- Rheoli adnoddau ariannol

- 2.3 Trafodwyd set o gyllidebau drafft yn fanwl gan Dîm y Prif Swyddog ac Arweinyddion Gwasanaeth ar 12 Tachwedd. Ar 21 Tachwedd dechreuodd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru ei swydd. Briffiwyd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar faterion ariannol yn cynnwys cefndir, sefyllfa bresennol, cynigion i'r dyfodol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Panel Heddlu a Throseddau ar 19 Rhagfyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y cynigion presennol a'r rhagamcaniadau cyn y cyhoeddiadau ariannol a wnaed yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.
- 2.4 Bydd yr adrannau canlynol yn manylu ar yr holl ddatblygiadau ers y Cynllun Ariannol Tymor Canolig blaenorol gan gyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer Refeniw, Cyfalaf a Chronfeydd wrth gefn.

### 3. Cyllideb 2012-13

- 3.1 Disgwyliwyd gostyngiadau sylweddol ymhell cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi'r toriadau ariannol terfynol, ac i baratoi ar gyfer hyn sefydlwyd Prosiect 2011+ i nodi arbedion tymor hir. Yr un pryd sefydlwyd mesurau rheoli gwariant tynn yn ystod 2010-12 ac ymlaen i 2011-12, yn cynnwys rhewi recriwtio yn llwyr, er mwyn lleihau gwariant. Y cam cyntaf yn y broses hon oedd tynnu'r gostyngiad angenrheidiol o £4.679m o'r gyllideb sylfaen ar gyfer 2011-12. Mae'r tabl canlynol yn dangos lle y gwnaed y toriad cychwynol yma. Gweithredwyd y toriadau yma'n llwyddiannus.

#### Toriadau i Gyllideb 2012-13

	<b>£M</b>
Tâl yr Heddlu	£1.099
Tâl Staff Cefnogi	£1.991
Rhaglen Newidiadau TG	£1.453
Toriadau Eraill heb fod yn gysylltiedig â Staff	£0.136
<b>Cyfanswm</b>	<b>£4.679</b>

- 3.3 Y cam nesaf oedd gweithredu'r toriadau angenrheidiol yn 2012-13. Gweithredwyd y toriadau fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig gwreiddiol 2012 oedd yn dod i £6.016m, gyda £0.881m yn ychwanegol o ganlyniad i gynnydd o 2.5% yn nhreth y cyngor yn hytrach na'r 4% a gynlluniwyd oedd i'w ariannu o gronfeydd wrth gefn. Gweithredwyd y toriadau yma'n llwyddiannus.

## Toriadau i Gyllideb 2012-13

	£M
Tâl yr Heddlu (Adolygiadau 2011+)	-2.965
Pensiynau	-0.242
Hyfforddiant	-0.200
Eiddo	-0.454
Gwasanaeth Awyr	-0.342
Cyflenwadau a Gwasanaethau	-0.387
TG	-0.636
Arian wrth gefn Digwyddiadau Mawr	-0.207
Cyfraniad ac Arian wrth gefn	
Cymru Gyfan	-0.438
Cynnydd Band Treth	<u>-0.145</u>
<b>Cyfanswm</b>	<b><u>-6.016</u></b>

- 3.2 Rheolwyd cyllidebau'n dynn yn ystod 2012-13; o ganlyniad i hyn yn ogystal â mynd ati'n gynnar i weithredu arbedion a nodwyd ar gyfer 2013-14 ac effaith Swyddogion yn ymddeol cyn gynted ag y gallant, rhagwelir cyfraniad o £3.5m at falansau ar ddiwedd y flwyddyn. Bwriedir neilltuo unrhyw falansau ychwanegol i gronfa wrth gefn Recriwtio Swyddogion Prawf er mwyn recriwtio Swyddogion yn gynt nag y byddai'n digwydd fel arall.

## 4. Dyraniadau Cyllid

- 4.1 Ni roddwyd unrhyw Ddyraniadau Cyllido Cychwynnol gan y Llywodraeth ar gyfer 2013-14 fel rhan o setliad 2012-13, roedd toriadau canrannol dangosol o -2% ar gyfer 2013-14 a -1% ar gyfer 2014-15 wedi eu rhoi fel rhan o ffigyrau setliad 2011-12. Ni arweiniodd y setliad terfynol ar gyfer 2012-13 gan y Swyddfa Gartref at unrhyw newid i'r ffigyrau a gyhoeddwyd fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 yn Hydref 2010. Roedd hyn yn cadarnhau toriad o £5.571m neu -6.7% mewn grantiau ar gyfer 2012-13, a hynny'n dilyn toriad o £4.503m neu -5.14% yn 2011-12. Ar sail hyn, rhagdybiwyd yn wreiddiol y byddai toriad o -2% mewn Grantiau gan y Llywodraeth ar gyfer 2013-14.
- 4.2 Yn Natganiad Hydref 2011 cyhoeddodd y Canghellor y byddai cap o 1% ar godiad cyflog yn y sector cyhoeddus o 2013-14, a hyn yn dilyn y drefn o rewi cyflogau oedd eisoes yn bodoli ers dwy flynedd. Fel rhan o setliad 2012-13 dywedodd y Swyddfa Gartref y byddai'n cymryd yr arian a arbedid yn sgil rhewi tâl fel arbedion canolog. Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cynllunio ar sail rhagdybiaeth y byddai codiad cyflog o 2.5% o fis Medi 2013, o ganlyniad i gyhoeddiad y Canghellor gellid gostwng hyn i 1% ond gan ddisgwyl toriad ychwanegol mewn grantiau i wneud iawn am hyn. Y canlyniad disgwylidig oedd cyfanswm gostyngiad o -3.78% mewn grantiau. Fel rhan o Ddatganiad Hydref 2012, ar 5 Rhagfyr 2012 cyhoeddodd y Canghellor y byddai Adrannau'r Llywodraeth yn wynebu gostyngiad ychwanegol o -1% yn 2013-14 a -2% yn 2014-15.

- 4.3 Ni wnaed unrhyw gyhoeddiad ar y 'lefelau lleddfu', hynny yw, yr addasiad i'r Fformiwla Dyrannu Grant a wnaed i sicrhau bod yr Heddluoedd i gyd yn derbyn yr un toriad canrannol yn eu prif grant - sy'n cael ei adnabod fel Grant Gwaelodol, cyn cyhoeddi Grant 2012. Bydd Heddlu Gogledd Cymru'n derbyn Grant Gwaelodol o £10.5m yn 2012-13.
- 4.4 Mae Grant Plismona Cymdogaeth yn darparu cyllid ar gyfer 75% o'r 157 o Swyddogion Cefnogi Cymuned Heddlu Gogledd Cymru. Bydd y Grant Plismona Cymdogaeth yn cael ei gynnwys yn y prif grant o 2013-14 ymlaen. Mae'r Grant Cyffredinol sylfaen ar gyfer cymharu â thoriadau wedi ei addasu ar sail gwerth y grant hwn (£3.338m).
- 4.5 Cyhoeddwyd y Grantiau dros dro gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2012. Y prif benderfyniadau oedd
- Peidio â dwyn ymlaen y toriad ychwanegol o 1% o Ddatganiad Hydref 2012
  - Peidio â chymryd yr arbediad o'r cap o 1% ar godiad cyflog yn ganolog
  - Gweithredu trefniadau lleddfu fel bod pob Heddlu'n wynebu'r un gostyngiad o -1.6% mewn grantiau

Isod cyflwynir y paragraffau perthnasol gan y Gweinidog Plismona a Chyfiawnder Troseddol (copi llawn yn Atodiad B)

*'Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Canghellor ostyngiadau pellach i gyllidebau Adrannau ar gyfer 2013/14 a 2014/15 yn ei Ddatganiad Hydref. Ond rwyf wedi sicrhau bod yr heddlu'n cael eu gwarchod rhag y gostyngiadau hyn yn 2013/14. Hefyd, yn 2013/14, rwyf wedi gwarchod yr heddlu rhag y gostyngiadau a gyhoeddwyd gan y Canghellor ym mis Tachwedd 2011 yn ymwneud â'r cyfyngiadau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus. Heb y warchodaeth hon ar gyfyngiadau cyflog, byddai cyllid gan Lywodraeth Ganol ar gyfer yr heddlu wedi gostwng o £66m yn 2013/14. O ganlyniad i'r penderfyniadau hyn, bydd yr heddlu'n derbyn yr un cyfanswm ariannol gan y Llywodraeth yn 2013/14 y cytunwyd arno yn Adolygiad Gwariant Hydref 201.*

*Rwyf wedi penderfynu gweithredu trefniadau lleddfu fel bod yr Heddluoedd i gyd yn 2013/14 yn wynebu'r un gostyngiad canrannol yn ei gyllid gan Lywodraeth Ganol (1.6 y cant).'*

- 4.6 Ni wnaed unrhyw gyhoeddiad ynglŷn â chyllid o 2014-15 ymlaen; er bod y Datganiad yn dweud y gweithredir lefelau lleddfu mewn ffordd debyg (bod Heddluoedd yn cael yr un gostyngiad) yn 2014-15 cyn adolygiad sylfaenol o'r Fformiwla Ariannu'r Heddlu. Ar sail y ffigyrau sydd ar gael a'r ffaith bod y Llywodraeth wedi awgrymu'n gryf y bydd y camau i arbed arian yn parhau y tu hwnt i 2016-17, rhagdybiwyd y bydd gostyngiad o -3% mewn grant o 2014-15 ymlaen.

4.7 Mae'r Tabl isod yn crynhoi Cyllid gwirioneddol ac a ragwelir gan y Llywodraeth o 2012-13 i 2016-17.

12-13	13-14	13-14	13-14	14-15	14-15	14-15	15-16	15-16	15-16	16-17	16-17	16-17
Grant	Toriad	Toriad	Grant	Toriad	Toriad	Grant	Toriad	Toriad	Grant	Toriad	Toriad	Grant
£m	%	£m	£m	%	£m	£m	%	£m	£m	%	£m	£m
80.868	1.6	-1.287	79.581	3.0	-2.388	77.193	3.0	-2.316	74.877	3.0	-2.246	72.631

## 5. Treth y Cyngor a'r Praesept

5.1 Mae dwy elfen i gyfanswm Cyllideb net yr Heddlu, sef cyfanswm y Grantiau ar gyfer yr Heddlu a'r Praesept. Dangosir isod ganran y ddwy ffynhonnell ariannol yma ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

2012-13		
	£m	%
<b>Cyfanswm Grantiau Llywodraeth</b>	80.868	57%
<b>Cyfanswm Praesept</b>	60.834	43%
<b>Cyfanswm y Gyllideb Gyfan</b>	141.702	

5.2 Mae Treth y Cyngor yn cael ei gyfrifo trwy rannu cyfanswm y praesept y dylid ei godi â'r sylfaen dreth, y sylfaen dreth yw nifer yr eiddo Band D cyfatebol ym mhob ardal o'r Heddlu. Mae'r tabl yn Atodiad C yn dangos sefyllfa gymharol 42 o Ardaloedd Heddlu a osododd Braesept pe bai cyfanswm y gyllideb yn cael ei ariannu gan Dreth y Cyngor. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn yr 20fed safle uchaf o ran cyfanswm y gyllideb, yn yr 28ain safle o ran Grant yn ôl band treth ac yn 2il yn nhermau Treth y Cyngor. Mae hyn yn deillio o'r strategaeth dros y blynyddoedd i sicrhau bod cyfanswm cyllid ar lefel debyg i Heddluoedd sy'n derbyn Grant uwch.

5.3 Gosododd yr Awdurdod Heddlu gynnydd o 2.5% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2012-13 gan gynlluniodd ar sail rhagdybiaeth o 4% ar gyfer 2013-14. Roedd y rheolau capio yn 2013-14 yn wahanol i Gymru a Lloegr. Mae Ardaloedd Heddlu yn Lloegr yn gallu cael grant ar wahân sy'n cyfateb i gynnydd o 1% yn Nhreth y Cyngor, ni osodwyd unrhyw derfyn yng Nghymru ac nid oedd unrhyw gynllun Grant ychwanegol yn ei le.

5.5 Mae rhagamcaniadau'r Gyllideb a nodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad yn seiliedig ar gynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2013-14 a rhagdybir cynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor o 2014-15 ymlaen. Manylir ar y sail ar



gyfer y cynnydd o 4% yn 2013-14 yn Adran 6, mae'r rhagdybiaeth yn gysylltiedig â'r disgwyl y bydd gostyngiad o -3% mewn Grantiau i'r dyfodol. Mae newidiadau yn Nhreth y Cyngor yn cael effaith anghymesur ar gyfanswm y cyllid, mae newid o 1% yn Nhreth y Cyngor yn cyfateb i newid o £2.14 yn Nhreth y Cyngor ar Fand D ond mae'n cyfateb i newid o £0.595m yng nghyfanswm cyllid yn 2013-14.

- 5.6 Y mae disgwyl y bydd newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Diwygio Lles 2012 yn y ffordd y mae Budd-daliadau Tai'n cael eu talu, yn effeithio ar gyfradd casglu Treth y Cyngor. Defnyddir y gyfradd hon i gyfrifo'r sylfaen dreth ar gyfer gosod Treth y Cyngor a rhagwelid yn eang y byddai'r sylfaen dreth yn lleihau rhwng -1% a -3%. O ganlyniad i sylfaen dreth derfynol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, y gostyngiad cyffredinol oedd -0.49%. Ar sail cynllunio yn ôl rhagdybiaeth o gynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor byddai hyn wedi lleihau cyfanswm y praesept o £0.308m.

## 6. Rhagolygon y Gyllideb a Gostyngiadau a Gynlluniwyd 2013-14

- 6.1 Dangosir crynodeb o Ragolygon y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2013-14 a'r dyfodol yn Atodiad D.

- 6.2 Diweddarwyd rhagamcaniadau'r Gyllideb ar sail cynllun diwygiedig yr Heddlu a newidiadau i'r rhagdybiaethau sylfaen fel y rhestrir isod. Arweiniodd chwyddiant a chostau cynyddol mewn rhai meysydd, fel tanwydd a'r maes fforensig, a gostyngiad mewn grantiau ac incwm a'r defnydd bwriedig o gronfeydd, at gynyddu cyfanswm y toriadau angenrheidiol i £4.672m pan gytunwyd ar y gyllideb gan Brif Swyddogion ym mis Tachwedd 2012. Gwnaed iawn am y cynnydd hwn gan arbedion ychwanegol o £4.634m. Dyma'r prif newidiadau a'r rhagdybiaethau o'r gyllideb sylfaen a gyflwynwyd i Awdurdod yr Heddlu yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig Hydref 2012.

- Gostyngiad mewn arian wrth gefn yn trosglwyddo'r risg i'r fantolen
- Codiad o 1% mewn cyflogau o fis Medi 2013
- Chwyddiant Cyffredinol o 2%
- Y gyllideb yn seiliedig ar gynllun newydd yr Heddlu, 1418 o Swyddogion yr Heddlu 910 o Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu 258
- 41 o swyddi o swyddogion sifil ers Ebrill 2010

Amlinellir isod y gyllideb arfaethedig sy'n seiliedig ar y grant dros dro a'r rhagdybiaethau uchod

### Y sefyllfa o ran gosod y gyllideb (Tachwedd 2012)

#### Dadansoddiad o'r gyllideb a amcangyfrifir ar gyfer 2013-14

	£m
Cyllideb 2012-13	<u>140.908</u>
Chwyddiant cyflogau	0.861
Chwyddiant ar wahân i gyflogau	1.305
Gofynion Newydd a Grantiau	0.380

Defnydd bwriedig o gronfeydd wrth gefn	1.108
Gofyniad Cyllideb Diwygiedig	<u>144.562</u>
Amcangyfrif o Gyfanswm Cyllid	<u>139.891</u>

Toriad angenrheidiol **4.671**

Toriadau y cytunwyd arnynt

**Toriadau wedi eu cynnwys yng nghyllideb 2013-14**

	<b>£m</b>
Adolygiadau 2012-13	-0.578
Adolygiadau blynyddoedd blaenorol	-1.456
Swyddogion Sifil	-0.565
Rhewi Cynyddiad Cyflog	-0.411
Lwfansau	-0.391
Hyfforddiant	-0.125
Cyllideb Ynni	-0.090
Arfwisg	-0.100
Contractau	-0.252
Gwasanaeth Awyr	-0.285
Arian wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd arbennig	-0.093
Arian wrth gefn Cyffredinol	-0.250
Llog ar Falansau	-0.038
<b>Cyfanswm</b>	<b><u>-4.634</u></b>
<b>Balans</b>	<b><u>0.037</u></b>

Roedd cyfanswm y cyllid yn seiliedig ar gynnydd o 4% yn nhreth y cyngor a thoriad o -3.78% mewn grantiau a gostyngiad o 1% yn y sylfaen dreth

	<b>£m</b>
Grantiau @ toriad o -3.78%	77.814
Praesept @ cynnydd o 4% yn nhreth y cyngor	62.077
Cyfanswm	139.891

**Cyhoeddiad ariannol 19 Rhagfyr 2012**

- Toriad ychwanegol am rewi cyflogau heb ei ddwyn ymlaen
- Toriad ychwanegol o 1% gan y Canghellor heb ei ddwyn ymlaen
- Lefelau lleddfu fel bod pob un o'r Heddluoedd yn cael yr un toriad a'i osod ar -1.6%
- Gostyngiad o -0.49% yn y sylfaen dreth

## Ffigyrau Ariannu Diwygiedig

£m

Grantiau @ toriad o -1.6%	79.581
Praesept @ cynnydd o 4% yn nhreth y cyngor (talgyrnu 3.98%)	62.124
Cyfanswm	141.705
Arbedion y gellir eu hail-fuddsoddi	1.777

Bellach gellid defnyddio cyfran o'r arbedion gwerth £4.634m ar gyfer eu hail-fuddsoddi mewn Swyddogion rheng flaen. Gellid ariannu 51 o swyddogion eraill o'r £1.777m o arbedion sydd ar gael am flwyddyn lawn yn seiliedig ar yr ail bwynt ar y raddfa gyflogau. Mae Swyddogion ychwanegol eisoes wedi eu recriwtio fel rhan o'r strategaeth i fynd ati'n gynnar i recriwtio Swyddogion Prawf wedi eu hariannu gan gronfeydd wrth gefn. Gellir cael 51 o Swyddogion ychwanegol a gall y strategaeth o recriwtio Swyddogion yn gynnar barhau am gyfnod hirach.

Mae Treth y Cyngor o 2012-13 £214.56 ar sail cynnydd o 3.98% yn dod i £223.11, wedi ei luosi gan sylfaen dreth o 278446.12 yn dod i £62.124m

Mae hyn yn arwain at sefyllfa newydd gyda gostyngiad o -1.6% mewn grantiau a chynnydd o 3.98% yn nhreth y cyngor

### Cynnig diwygiedig o ran y gyllideb

Dadansoddi cyllidebau 2013-14

	£m
Cyllideb 2012-13	140.908
Chwyddiant cyflogau	0.861
Chwyddiant ar wahân i gyflogau	1.305
Gofynion Newydd a Grantiau	0.380
Defnydd bwriedig o gronfeydd wrth gefn	1.108
Gofyniad Cyllideb Diwygiedig	144.562
Grantiau @ toriad o -1.6%	79.581
Praesept @ cynnydd o 3.5% yn nhreth y cyngor	62.124
Cyfanswm Ariannol	141.705
Toriadau angenrheidiol	2.857
Toriad a nodwyd	4.634
Ail-fuddsoddi mewn 51 o swyddogion ychwanegol	1.777

## 7. Rhagolygon y Gyllideb 2014-15 i 2016-17

7.1 Mae'r sylfaen diwygiedig a'r newid o ran rhagdybiaeth hefyd wedi cael peth effaith ar y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhain bellach wedi eu cynnwys yn y rhagamcaniadau. Mae'r effaith gyffredinol fel a ganlyn. Dangosir y manylion yn Atodiad D.

	<b>2014-15</b>	<b>2015-16</b>	<b>2016-17</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Diffyg yng Nghynllun Chwe 2012	2.490	1.785	1.800
Effaith gyffredinol y newidiadau	-0.167	0.342	0.119
<b>Diffygion Diwygiedig</b>	<b>2.323</b>	<b>2.127</b>	<b>1.919</b>

7.2 Gellir dadansoddi'r sefyllfa gyffredinol fel a ganlyn

	<b>2014-15</b>	<b>2015-16</b>	<b>2016-17</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Cynnydd o ran chwyddiant	2.420 (1.71%)	2.396 (1.66%)	2.361 (1.61%)
Gostyngiad mewn Grantiau	2.388 (-3.0%)	2.316 (-3.0%)	2.246 (-3.0%)
Cyllid ychwanegol yn sgil y cynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor	-2.485	-2.585	-2.688
<b>Diffyg Diwygiedig</b>	<b>2.323</b>	<b>2.127</b>	<b>1.919</b>

7.3 Sefydlwyd cynllun i sicrhau cyllideb gytbwys yn ystod cyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Trafodwyd hyn a chyflwynwyd y manylion i Arolygiaeth Cwnstablaieth Ei Mawrhydi (HMIC) ym Mawrth 2011 ac yna, ym mis Tachwedd 2011. Mae'r cynllun bellach wedi ei ddiweddarau fel y dangosir uchod ar gyfer 2011-12 i 2013-14, ac isod dangosir y cynigion presennol ar gyfer 2014-15 sydd wedi bod yn destun craffu gan yr Heddlu, gan yr HMIC ac eraill. Disgwylid y byddai syniad cliriach o'r cyllid ar gael yn y dyfodol, ond ar sail y ffigyrau ar gael bydd y cynllun ar gyfer 2014-15 yn cael ei ddiwygio a chynllun ar gyfer 2015-16 i 2016-17 yn cael ei sefydlu ar sail y rhagdybiaethau uchod.

	<b>2014-15</b>
	<b>£ m</b>
<b>Amcangyfrif o'r toriadau angenrheidiol</b>	<b>2.323</b>
Adolygiadau 2011+	-0.385
Eiddo	-0.583
Fflyd	-0.378
Cydweithio	-0.200
Adolygiad Winsor	-0.908
<b>Balans</b>	<b>-0.131</b>

Bydd unrhyw feysydd eraill o'r Heddlu nad ydynt wedi eu hadolygu'n cael sylw, a bydd unrhyw arbedion a nodir naill ai'n cael eu defnyddio ar gyfer toriadau posibl yn 2015-16 neu gellir eu hail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.

## **8. Recriwtio**

- 8.1 Wrth i'r Heddlu gael ei ail-gynllunio cafodd y broses o recriwtio swyddogion Heddlu a staff Cefnogi'r Heddlu ei rhewi. Gweithredwyd strategaeth yn ystod 2012-13 i gael Swyddogion Prawf ychwanegol er mwyn cael Swyddogion wedi eu hyfforddi yn lle'r Swyddogion oedd yn ymddeol. Yn ystod 2012-13 daeth yn amlwg bod Swyddogion yn ymddeol cyn gynted ag y gallant; mewn ymateb i hyn recriwtiwyd Swyddogion Prawf ychwanegol.
- 8.2 Bellach mae disgwyl y bydd cyfanswm o 89 yn cael eu recriwtio eleni o'i gymharu â'r ffigwr gwreiddiol o 72. Byddai hyn ar y cychwyn yn golygu bod 76 o Swyddogion ychwanegol ar 1 Ebrill a byddai'r nifer yn lleihau'n raddol yn ystod y flwyddyn. Byddai ychwanegu 51 o swyddi parhaol eraill at y sefydliad yn gostwng y ffigwr hwn, ond byddai'n galluogi i'r strategaeth recriwtio cynnar barhau am flwyddyn arall. Yn ôl y Cynllun Recriwtio gwreiddiol ar gyfer 2013-14 y bwriad oedd recriwtio 10 yn y chwarter cyntaf. Byddai gosod y gyllideb arfaethedig yn fodd i recriwtio hyd at 72 o Swyddogion Prawf (18 bob chwarter) yn ystod 2013-14. Bydd y nifer terfynol yn dibynnu ar y raddfa y bydd staff yn ymddeol ac eraill sy'n gadael eu swyddi.

## **9. Risgiau**

- 9.1 Mae lefel ansicrwydd wrth osod cyllidebau 2013-14 wedi bod yn uwch nag ar gyfer 2012-13 gan nad oedd gwybodaeth ynglŷn â'r grantiau ar gael tan 19 Rhagfyr. Gan nad oedd unrhyw ffigyrau grant wedi eu cyhoeddi, mae lefel uchel o ansicrwydd o 2014-15 ymlaen.
- 9.2 Mae'r cynlluniau ar gyfer arbedion yn 2013-14 yn eu lle ac yn cael eu gweithredu; fodd bynnag rhaid i'r arbedion posibl yn 2014-15 gael eu profi.

Nid yw'r holl arbedion o dan reolaeth yr Heddlu. Bydd yr arbedion o ran Cydweithio'n dibynnu ar Heddluoedd eraill, a bydd yr arbedion ar Adolygiad Winsor i dâl Swyddogion heddlu a Staff Cefnogi Heddlu yn dibynnu ar y cytundeb cenedlaethol terfynol.

- 9.3 Mae'r amcangyfrif o'r toriadau angenrheidiol yn seiliedig ar gynllunio yn ôl rhagdybiaeth o gynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor. Pe bai'r ffigwr hwn yn cael ei ostwng byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad ychwanegol o £0.595m yng nghyllidebau 2013-14. Bydd y penderfyniad terfynol ynglŷn â Threth y Cyngor yn dibynnu ar yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer 2014-15 ac unrhyw reoliadau capio a gaiff eu gosod.
- 9.4 Gellid cael gostyngiad pellach yn y sylfaen dreth oherwydd ni fyddwn yn gwybod beth fydd effaith lawn newidiadau'r Ddeddf Diwygio Lles nes bydd y ffigyrau casglu Treth y Cyngor gwirioneddol ar gael ar gyfer 2013-14.
- 9.5 Nid yw Fformiwla Cyllido bresennol yr Heddlu wedi ei defnyddio'n llawn oherwydd ystyriwyd bod yr amrywiadau o ran cyllid yn rhy fawr. Gwneir y cywiriad trwy'r Grant Gwaelodol; roedd y cyhoeddiad grant yn datgan y byddai'r Grant Gwaelodol yn parhau yn 2014-15. Gwneir adolygiad llawn o Fformiwla Dyrannu'r Heddlu gan y Swyddfa Gartref unwaith y bydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn eu swyddi. Mae Heddluoedd mwy yn debygol o elwa mwy ar adolygiad o'r fformiwla yn y dyfodol a gallai arwain at lai o gyllid ar gyfer Gogledd Cymru.
- 9.6 Gallai toriadau pellach gael eu gwneud yn ystod cyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant nesaf. Mae pob toriad ychwanegol o 1% i'r Cyllid Grant Cyffredinol yn golygu gostyngiad ariannol o dros £0.796m.
- 9.7 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei gwario ar dâl, gall unrhyw newidiadau bach i godiad cyflog, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol gael effaith anghymesur ar y gyllideb.
- 9.8 Mae'r swm o dros £1m yn dibynnu ar weithredu'r Adolygiad Ystadau, ond hefyd mae elfen fawr o osgoi costau o fewn yr adolygiad, sydd ar hyn o bryd, yn ôl yr amcangyfrif yn £7.1m.
- 9.9 Mae'r tabl isod yn tanlinellu sensitifrwydd y prif ragdybiaethau

<b>Prif amrywiadau - sensitifrwydd</b>	<b>£m</b>
1% yn llai o gynnydd yn Nhreth y Cyngor	0.595
Gostyngiad o 1% mewn grantiau	0.796
